# THEMA CYFIAWNDER HILIOL 2008

## Gwledd i'r bobl i gyd
## Eseia 25:6-9

**“...bydd Arglwydd y Lluoedd yn paratoi gwledd o basgedigion i'r bobl i gyd, gwledd o win wedi aeddfedu...”**

Y mae ymfudo yn ffaith bywyd. Fwy a mwy bob dydd, y mae pob cymuned, hyd yn oed pob *eglwys* yn adlewyrchu amryfalwch y ddynolryw. Y mae'r Beibl mewn nifer o fannau yn clodfori'r ffaith hon drwy addo gwahoddiad i wledd i holl bobloedd y byd.

### Sul Cyfiawnder Hiliol – Medi 14eg, 2008

– yn ymgymryd â'r thema hon ac yn cynnig bwydlen *a la carte* ar gyfer y wledd.

Gallwch weld cysylltiadau beiblaidd a themâu diwinyddol, cwestiynau i'w trafod, awgrymiadau ar gyfer gweddïau ac addoli, digwyddiadau ar gyfer pobl ifanc, awgrymiadau ar gyfer digwyddiadau cymunedol a chysylltiadau â phynciau heriol y dydd. Gerbron bwrdd Duw, nid oes neb yn llwglyd!

Y mae rhai eglwysi'n dathlu'r diwrnod hwn fel “Gwledd Buddugoliaeth y Groes”, pryd “*yr ydym yn mawrygu croes ein Harglwydd Iesu Grist gan mai Ef yw ein Gwaredwr, ein bywyd a'n hatgyfodiad; trwyddo Ef yr ydym wedi ein hachub ac wedi cael rhyddid.”* Gallwch weld fod rhai eitemau ar y fwydlen yn addas iawn ar gyfer addoli ar y thema hon.

# BWYDLEN

## Bwyd i godi blys – Blasynnau

### Ffyrdd o nodi Sul Cyfiawnder Hiliol

- Gwnewch bwynt o adnabod a dathlu'r amryfalwch sydd yn y gynulleidfa yn eich haddoliad y Sul hwn – canolbwyntiwch ar iaith, cerddoriaeth, gwisg a thraddodiad yn ogystal â tharddiad daearyddol.

- Defnyddiwch y deunydd sydd yn y daflen hon i gael gwasanaeth arbennig ar y thema: Gwledd i'r bobl i gyd – mae yna awgrymiadau gogyfer â darlleniadau a phregethau, gweddïau, emynau a chaneuon, gweithgareddau ar gyfer pob oedran ac atebion ymarferol.

- Trefnwch cyd-addoliad gydag eglwysi eraill yn yr ardal, yn arbennig â chynulleidfaoedd o genedl benodol neu sy'n defnyddio iaith benodol.

- Cynhwyswch eitemau arbennig cyfiawnder hiliol yn eich gwasanaeth – y mae digonedd o syniadau yn y daflen. Yn arbennig, ceisiwch ddefnyddio gweddïau, litwrgïau a deunydd eraill addoli a draddodiadau gwahanol i rhai eich hunain. Hefyd, defnyddiwch ieithoedd gwahanol yn eich addoliad.

- Cynhaliwch ddydd o astudio neu o neilltuo i'ch eglwys ar y thema: Sut all ein heglwys ddod yn wledd i'r holl bobloedd? Mwya'n byd o amser sydd ar gael bydd cyfle i'r gynulleidfa i wneud cysylltiadau cryfach rhwng penodau beiblaidd ac atebion ymarferol.

- Defnyddiwch yr amrywiol benodau o'r Beibl yn y daflen hon i drefnu sesiynau byr o grwpiau trafod pynciau o fewn y gynulleidfa. Dylech anelu nid yn unig at drafodaeth dda, ond at gael y grŵp i ymgymryd â gweithgaredd yn y gymuned o ganlyniad i'r drafodaeth a gafwyd.

- Cynhaliwch weithgaredd eglwysig neu/a chymdeithasol sy'n cynnwys gwledd amlddiwylliannol. Yn y modd hwn, y mae'n bosibl gwireddu gweledigaeth Eseia o wledd i'r holl bobloedd.

- Cynhaliwch arddangosfa o luniau sy'n adlewyrchu amryfalwch ethnig eich heglwys a'ch cymuned.

## Gweddïau ar gyfer dechrau'r addoliad

O Dduw Greawdwr, yr wyt wedi gwneud yr holl bobl ar dy ddelw
Ac yr wyt yn ein galw i'th addoli.
Deuwn atat yn ein holl amryfalwch
– hen ac ifanc, du a gwyn, tlawd a chyfoethog, gwryw a benyw -
oherwydd y gwyddwn bod gwahoddiad i ni gyd ger dy fwrdd.
Diolch iti am dy haelioni,
am ymborth cariad sydd wastad yn ein digonni.

Ti sy'n caru pob cenedl a'r holl bobloedd,
Llawenhawn yng ngwydd y wledd a osodaist ger ein bron;
Bwyd dethol, gwin aeddfed a chwmniaeth neilltuol.
Diolch nad oes neb yn wrthodedig a bod croeso i bawb.
Cynorthwya ni i fwynhau'r wledd yn ei holl amrywiaeth
Fel y daw i ni yn fwy na mwynhâd achlysurol
Ond yn brif ymborth dy haelioni.

Duw ein cynhaliwr, sy'n cynnal dynoliaeth a'r holl greadigaeth trwy dy gariad,
Diolch am y cyfle hwn i'th addoli.
Cynorthwya ni i werthfawrogi dy roddion oll
Ac i weld gwerth yng nghyfraniad pob person
Fel bod ein gweddïau, geiriau a'n gweithgaredd
Yn ddrych o'th greadigrwydd di-ddiwedd a chariad di-derfyn a galluoga ni i brofi gwledd teyrnas nefoedd.

## Gweddïau

Fel y cymerodd ein Harglwydd Iesu y phum torth a'r ddau bysgodyn ac edrych i fyny tua'r nefoedd gan weddïo y buasem ni yn gweddïo i ti ein Tad nefol, a diolch iddo am y wledd y mae wedi ei pharatoi i'r holl bobloedd, gwledd o'r ymborth gorau a'r gwin aeddfeta. Boed iddo roi i ni galonnau haelionus a'r parodrwydd i rannu'r pryd bwyd gogoneddus â holl genhedloedd y ddaear.

**Arglwydd yn dy drugaredd**
**Clyw ein gweddi.**

Dduw yr holl bobloedd, gweddïwn am y rhai hynny sy'n cael eu gwawdio ar sail hil a gwahanolyddiaeth. Gweddïwn am iti eu hamddiffyn yn arbennig y rhai sy'n cael eu heffeithio yn ein heglwysi, ein sefydliadau addysgu, lluoedd gweithio ac yn ein cymunedau.

**Arglwydd yn dy drugaredd**
**Clyw ein gweddi.**

Gweddïwn y gallwn deimlo grym cymodi trwy waith Ysbryd Duw. B'le bynnag y bo rhaniad rhyngom ag eraill, oherwydd ein diwylliant a'n cenedligrwydd, gweddïwn y gallwn i gyd gymodi.

**Arglwydd yn dy drugaredd**
**Clyw ein gweddi.**

Gweddïwn y bydd ein pobl ifanc yn gwneud cyfraniad buddiol i adeiladu byd lle bydd pawb, o unrhyw genedligrwydd, ddiwylliant neu grefydd yn gallu byw bywyd o'r iawn ryw.

**Arglwydd yn dy drugaredd**
**Clyw ein gweddi.**

Dduw Trugarog, gofynnwn iti lenwi ein calonnau â'th gariad. Dyro i ni'r gras i godi uwchlaw ein gwendidau dynol, a cheidw ni yn ffyddlon i Efengyl dy fab.

**Arglwydd yn dy drugaredd**

**Clyw ein gweddi.**

Cofiwn am y rhai sâl yn ein cymunedau yn arbennig y rhai hynny a weithiodd i sicrhau Cyfiawnder Hiliol. Gweddïwn y bydd dwylo buddiol Duw yn iacháu ac yn atgyfnerthu y gweithwyr dros Gyfiawnder Hiliol ynghyd â'u teuluoedd.

**Arglwydd yn dy drugaredd**
**Clyw ein gweddi.**

Yr ydym yn coffáu yr ymadawedig, yn arbennig y rhai hynny a weithiodd yn ddi-flino dros Gyfiawnder Hiliol :bod lle iddynt oll yng ngwledd bywyd tragwyddol, ac y bydd goleuni bythol yn goleuo arnynt.

**Arglwydd yn dy drugaredd**
**Clyw ein gweddi.**

Dduw ein Tad, offrymwn iti'r gweddïau hyn a gwaith ein dwylo, a chariad ein calonnau, fel y gwneler dy ewyllys ymhob dim. Gofynnwn hyn yn enw Iesu Grist ein Harglwydd.

**Arglwydd yn dy drugaredd**
**Clyw ein gweddi.**

## Gwehyddu a Chredu – UN BRETHYN
(Gweddi ar gyfer Sul Cyfiawnder Hiliol)

Dduw Grasol
Fe'n geilw i wneud un brethyn;
Wedi'i wehyddu o'r amrywiol draddodiadau
A deuwn ger dy fron yn awr
Yr edafedd sydd gennym i'w gynnig.

O'n *traddodiadau*
Deuwn â'r pethau a drysorwn ac sy'n werthfawr i ni -
A'r pethau y gallwn ymadael â hwy.
Y pethau sy'n ein hannog a'n hysbrydoli -
Y pethau sydd ond yn codi cywilydd arnom.
Y pethau sydd yn rhoddion i'r holl eglwys -
A'r pethau sy'n feini tramgwydd
Yn ein pererindod â'n gilydd.

Oddi wrthym ein *hunain*
Deuwn â'n natur agored mewn theori -
Ond yn ymarferol, ein natur amheugar.
Ein parodrwydd i ddysgu -
Ond nid bob amser i gael ein newid.

Ein parodrwydd i rannu -
Ond nid bob amser i dderbyn.
Ein parodrwydd i weithio -
Ond nid bob amser gyda'n gilydd.

Dduw Grasol
Cymer yr edafedd sydd gennym i'w chynnig.
Gwrthoda'r hyn sy'n annefnyddiol
A derbynia yr hyn sydd dda.
Defnyddia wennol dy Ysbryd
I wehyddu brethyn defnyddiol
A rho i ni'r gras i'w ddefnyddio'n dda.

Gofynnwn hyn yn enw Crist – Amen.

# Nid oes yng Nghrist na dwyrain, de

Nid oes yng Nghrist na dwyrain, de
Gorllewin, gogledd chwaith;
Cymdeithas gref o gariad sydd
Yn un drwy'r ddaear faith.

Calonnau cywir ym mhob man,
Eu hundeb ynddo sydd;
Gwasanaeth Crist yw'r gadwyn aur
Sy'n cydio pawb trwy ffydd.

Pob lliw, pob llun O! Down ynghyd,
Un teulu ydym ni;
A wasanaetho Dduw ein Tad,
Mae'n frawd neu chwaer ini.

Yng Nghrist ei hun cyferfydd pawb
O bedwar ban y byd;
Mae'r seint yn un yng Nghrist yn awr
Trwy'r ddaear fawr i gyd.

(Awdur – John Oxenham, 1852 – 1941
cyf. William Morris 1889 -1979)

Tôn: Bishopthorpe

(Atodiad – Llyfr Emynau A Thonau Y Methodistiaid Calfinaidd A Wesleaidd)

# PRIF GYRSIAU

## Cysylltiadau Beiblaidd a themâu diwinyddol

– yn olrhain llinyn arian gyfoethog drwy'r Beibl.

Yng ngweledigaeth Eseia o'r wledd, yn union fel ar amryw achlysur yn y Beibl, y mae pwrpas Duw yn gynhwysol radicalaidd, ond nid utopia mohono. Y mae'r dagrau a'r tristwch sy'n gwneud pobl yn rhanedig ac sy'n creithio ein profiad o fyw yn cael eu cydnabod ac yn cael eu hiacháu gan fod Duw yn dod â'r holl genhedloedd at y bwrdd.

Y mae'r wledd ar gyfer yr holl genhedloedd yn gyflawnder o gariad Duw tuag at yr holl bobloedd, fel y mynegwyd yn y cyfamod ag Abraham a ddeilliodd o'i ufudd-dod o i alwad Duw "Dos... i'r wlad a ddangosaf i ti" - Gen 12:1 (cysyllter â thema 2007)

Paratoi ar gyfer y wledd. "Ac ar y mynydd hwn fe ddifa'r gorchudd a daenwyd dros yr holl bobloedd" (Es.25:7). Cyfiawnder yw rhaganghenraid y wledd.

O safbwynt Cristion, y mae'r addewid o wledd yn cael ei chyflawni yn rhinwedd gwaith iachau Crist, a ddywedodd: "Hwn yw fy nghorff", a hefyd "Ni bydd eisiau bwyd byth ar y sawl sy'n dod ataf fi." (Ioan 6:35).

Yn llythyrau Paul, Cristnogion eu hunain yw corff Crist, wedi ei dorri ar gyfer y byd. Y mae pob Cristion felly'n cyfranogi yn y wledd ei hun ac yn y ddarpariaeth hanfodol o ddod â chyfiawnder.

Y mae'r syniad o gorff Crist yn cynnwys y syniad os yw un rhan o'r corff yn dioddef, yna mae pawb yn dioddef. Y mae cyfrifoldeb ar Gristnogion felly i fod yn ymwybodol o boenau ei gilydd a hefyd i ofalu am ei gilydd.

Y mae Cristnogion yn poeni nid yn unig am boen a dioddefaint Cristionogion eraill ond am boen a dioddefaint

yr holl bobloedd oherwydd bod gofal Duw yn gyfanfydol. Gwahoddir yr holl bobloedd i wledd Duw!

Enghreifftiau beiblaidd eraill o'r addewid o wledd
Mathew 8:11; Mathew 22:1-14; Luc 14:13-24; Luc 16:22; Datguddiad 19:5-10

Y mae Sul Cyfiawnder Hiliol hefyd yn ddathliad o Fuddugoliaeth y Groes. Y mae yna gyswllt cryf rhwng maddau a chynnwys. Oherwydd ein bod wedi cael maddeuant gwyddwn na allwn ddychwelyd at ein hen ffordd o fyw. Nid yw hyn yn honni na wnawn bechu: ond yn hytrach y mae i sylweddoli oherwydd ein bod wedi cael maddeuant, y gallwn ddechrau byw bywyd newydd a dechrau adeiladu'r deyrnas efo Crist a thrwy Grist. Ni ddylai'r hen ffordd o fyw fod yn llyffethair. Arwydd o'n maddeuant yw'r groes a'r arwydd ohonom yn byw y bywyd newydd yw'r ewcharist. Ar ddechrau'r ewcharist yr ydym yn cyffesu ein pechodau. Cyn cymundeb yr ydym yn ysgwyd llaw ac yn cofleidio fel arwydd o gymodi. Felly, y mae'r ewcharist yn cydnabod byd toredig, ond gyda goruchafiaeth y groes ac fel gwledd orfoleddus, y mae cyfannu'r byd fel y galwodd Crist ni i wneud hynny. Megis y gweddïwn bob dydd wrth adrodd Gweddi'r Arglwydd: 'Deled dy deyrnas, gwneler dy ewyllys,megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd'.

## Darlleniadau Llithoedd ar gyfer Medi 14eg - Blwyddyn A – prif wasanaeth

– rhai cysylltiadau i eglwysi sy'n defnyddio'r llithoedd cyffredin

**Rhufeiniaid 14: 1-12**
Edrychwch ar yr adnodau hyn o safbwynt cyfiawnder hiliol. Y mae'r adnodau hyn yn trafod gwahaniaethau diwylliannol a gwahanol ffyrdd o ddynesu at ffydd. Y mae'r thema o fwyta yn priodi'n addas ag Eseia 25 a gellid yn hawdd llunio pregeth neu astudiaeth feiblaidd. Gyda bwrdd y wledd yn llawn o bobl o bob cefndir, y mae'r math o dderbyniad, dealltwriaeth a goddefgarwch y mae Paul yn eiriol trosto yma yn hanfodol. Efallai mai calon yr eiriolaeth yw'r hyn a geir yn adn. 7 - “Oherwydd nid oes neb ohonom yn byw iddo'i hun.” Mewn geiriau eraill, y rhinwedd Gristionogol waelodol o roi eraill yn gyntaf fydd y glud a fydd yn cynnal y dorf amryfal hon wrth ei gilydd. Dylai safle cychwynnol pawb wrth y bwrdd fod yn un o anrhydeddu a pharchu'r hyn sy'n bwysig i'r gwesteion eraill a bod yn barod i ymatal rhag mynegi ei ffafriaeth ei hunan. Sut fath o gymuned fyddai un o'r fath? Sut y gallwn adeiladu un lle 'rydym ni'n byw?

**Ecsodus 14: 19-31**
Nid oedd gan yr Israeliaid obaith i wrthsefyll grymusterau'r Aifft, ond yr oedd angen brwydr er mwyn eu rhyddhau. Yn ôl stori'r Ecsodus, y mae'r frwydr a'r fuddugoliaeth yn eiddo Duw! Y mae Sul Cyfiawnder Hiliol yn ein hatgoffa nad yw drygioni'n diflannu'n syml: y mae rhaid ei wrthsefyll a'i orchfygu – ond nid trwy rym dynol. Y mae Duw o du rhyddid! Yn yr un modd, nid breuddwyd utopiaidd yw'r wledd yn Eseia. Y mae'n rhaid ymladd amdano, ond Duw sy'n gwneud yr ymladd trwy iachau “gofidiau'r cenhedloedd”. Pe taech yn darllen y llith hon ar gyfer Sul Cyfiawnder Hiliol, efallai y bydd eich myfyrdod yn cynnwys edrych ar rhai o'r sefyllfaoedd cyffelyb i'r ecsodus, yn y gorffennol a'r presennol lle mae cyfiawnder hiliol yn y cwestiwn: cofio sefyllfa fregus y ddynolryw a buddugoliaeth Duw. Efallai y byddai hyn yn cynnwys diddymu caethwasiaeth, diwedd apartheid yn Ne Affrig neu Rosa Parks yn gwrthod ildio'i sedd ar y bws ac yn y blaen.

**Salm 114**
Y mae'r Salm hyfryd hon yn gofyn cwestiwn sydd angen i ni ateb drosom ein hunain: “Pam, fynyddoedd, yr ydych yn neidio fel hyrddod? A chwithau'r bryniau fel ŵyn?” (adn. 6). Cyfeiria wrth gwrs, at yr Ecsodus pan ryddhawyd yr Israeliaid o gaethiwed. Cyfyd yr un cwestiwn mewn unrhyw oes, sy'n digwydd yn aml er gwaethaf sefyllfaoedd amhosibl. Beth sy'n gyfrifol am y fuddugoliaeth feddyliwch chi? Y mae'n amlwg bod y Salmydd mewn parchedig ofn yng ngwydd gallu ac awdurdod Duw, ac felly y dylem ni fod, oherwydd y mae'r ddaear ei hun yn crynu ym mhresenoldeb Duw, “sy'n troi'r graig yn llyn dŵr a'r callestr yn ffynhonnau.” (adn. 8). Dyma'r persbectif sydd ei angen pan wynebwn rhagfarn ac anghyfiawnder: gellir trawsnewid yr hyn a ymddengys yn ddiffaith ac anhydraidd i lyn dŵr sy'n rhoi bywyd.

**Mathew 18: 21-35**
Disgrifia Iesu ddyn sydd wedi cael gollyngdod rhag dyled fawr, ond sydd wedyn yn anfon beiliod i adfer dyledion llawer llai gan rhywun arall. Gŵyr pawb bod camdrinwyr fel arfer wedi cael eu camdrin eu hunain. Ym maes Cyfiawnder Hiliol, y mae'r cof yn fyr fel bo grŵp a ddioddefodd rhagfarn a hiliaeth yn anghofio'i hanes ei hun, anghofio'r gwersi poenus i gyd wrth geisio sicrhau cyfiawnder ac yn atal hawliau grŵpiau eraill o bobl. Yn ôl Eseia, y mae lle i bob grŵp yn y wledd, nid trwy ei ennill, ond trwy ras. Duw sy'n rhoi'r gwahoddiad, iachau galar ac yn dod â'r gorthrymwr a'r gorthrymedig at ei gilydd wrth y bwrdd. Ar gyfer Sul Cyfiawnder Hiliol, pam na chwiliwch am y cysylltiad rhwng maddeuant a chael eich cynnwys?

## MELYSFWYD

## Cwestiynau i'w trafod

Faint mae eich eglwys yn ymdebygu i'r wledd yn Eseia 25? Pa “(l)len galar sy'n cuddio pob cenedl” (adn. 7) heddiw? Sut y gellir iachau a chael gwared ohonynt? Beth yw'r galar sydd yn eich cynulleidfa, yn unigol ac yn dorfol? Ym mha fodd y mae eich eglwys angen ei hiachau? Meddyliwch yn arbennig am berthynas rhwng grwpiau o bobl o fewn y gynulleidfa ac yn y gymuned ehangach.

## Cysylltiadau â phynciau heriol cyfoes

<u>Ymfudo</u>: dadleuon ynglŷn ag ystadegau a rheoli ymfudo. A ydyw ymfudwyr yn fygythiad i'n bywyd cenedlaethol, neu a ydyw bywyd yn cael ei gyfoethogi gan y cynnydd mewn cymdeithas amryfal?
<u>Cydlyniad Cymdeithasol</u>: mewn cymunedau lle mae pobl o gefndiroedd ethnig gwahanol yn byw, sut y gellir helpu y grwpiau hynny i ddod i adnabod ei gilydd ac i osgoi arwahanrwydd?
<u>Cynnwys</u>: pa grwpiau cymdeithasol sydd yn aml yn cael eu cau allan o gymdeithas “brif ffrwd” a beth ellir ei wneud i rwystro hynny?

## Gweddïau ac eiriolaeth

Diolcha am gyfoeth y greadigaeth ac am haelioni Duw i'r holl bobloedd.
Gweddïa dros y rhai sydd yn y gynulleidfa sydd mewn galar.
Gweddïa dros grwpiau yn y gymdeithas sy'n galaru'n dorfol oherwydd trychineb yn y gorffennol neu anghyfiawnder yn y presennol.
Gweddïa dros y rhain sy'n gwrthod gwahoddiad Duw i'r wledd, ac sydd well ganddo fwyta ar ei ben ei hun.
Gweddïa dros y rhai sydd oherwydd trachwant, hunanoldeb neu ragfarn, sy'n ceisio cadw rhoddion Duw iddynt eu hunain.
Fel y meddyliwn am y darlun o'r wledd, gweddïa dros y rhai hynny a aiff yn llwglyd heddiw.

## Ymateb y gynulleidfa i sialensau

Rhowch stôr o fwyd yn eich heglwys leol a'i rannu ymhlith y di-gartref yn yr ardal leol ac i'r sawl sy'n gofyn i'r eglwys am gymorth. Datblygwch yr arferiad o sylwi pwy sy'n *absennol* yn eich gwasanaethau, cyfarfodydd a gweithgareddau eraill oherwydd y ffaith eu bod yn teimlo eu bod yn cael neu wedi cael eu cau allan gan rhyw ffactor. Lluniwch strategaeth sy'n fwriadol yn *cynnwys* y grwpiau a'r unigolion hyn. Lluniwch nifer o weithgareddau yn ystod y flwyddyn – gŵyl cynhaeaf, Nadolig, penblwyddi ac y.y.b. - pryd y gellir trefnu pryd bwyd yn eich heglwys ac y rhoddir gwahoddiad i'r gymuned gyfan gyda bwydlen a fydd yn cynnwys pawb.

# PRYDAU ARBENNIG Y COGYDD

## Syniadau ar gyfer pobl ifanc

Cynhaliwch weithgaredd Cogydd-Feistr i'r ifanc a gwahoddwch weddill y gynulleidfa i'r wledd sy'n deillio o'r uchod! I gydnabod y rhoddion y mae Duw wedi'i roi i bob rhan o'r Corff, trefnwch gystadleuaeth doniau i'r bobl ifanc. Anogwch hwy i gymryd y gweithgareddau o ddifrif a cheisiwch ofalu nad oes neb yn cael ei amddifadu. Rhowch wahoddiad i deulu a ffrindiau, ynghyd ag i weddill y gynulleidfa a throwch yr achlysur yn gyfrwng codi arian i Gronfa Cyfiawnder Hiliol. Dros yr haf, gadewch i'r bobl ifanc dynnu lluniau a gwneud fideo o bobl yn y gymuned ac o'u teuluoedd a'u ffrindiau. Defnyddiwch y rhain i greu arddangosfa sy'n amlygu yr amryfal bobloedd yn ein cymunedau. Dewiswch bwnc trafod cyfoes yn ymwneud â chyfiawnder hiliol, rhywbeth ar hyd y llinellau “y mae'r tŷ hwn yn credu bod y daioni a ddaw o ymfudo yn llawer mwy na'r anawsterau a ddaw yn eu sgîl,” a chynhaliwch drafodaeth fywiog efo aelodau hŷn y gynulleidfa fel torf i wrando. Gorffennwch gyda thrafodaeth a phleidlais a fydd yn galluogi'r bobl ifanc i arwain wrth agor trafodaeth ar y pwnc gerbron yr eglwys gyfan. Os yw'r eglwys yn trefnu gwledd amlddiwylliannol fel yr awgrymwyd, gofalwch bod y bobl ifanc yn cymryd rhan flaenllaw. Gall hyn gynnwys gweini wrth y byrddau, trefnu'r gerddoriaeth, cynnal cwis neu rhywbeth cyffelyb. Gwahodd y bobl ifanc i wneud ymchwil ar sut mae Cristionogion mewn gwledydd eraill yn dathlu a gwledda efo'i gilydd a'r modd y maent yn gwneud hynny'n weithgaredd lleol. (Gallai hyn greu cysylltiad parhaol â phobl ifanc mewn rhannau eraill o'r byd).

## Gwaith grŵp ar gyfer pob oedran

1. Ceiswch gael darlun eglur o'r ymfudo sy'n digwydd trwy ofyn cwestiynau megis:
   "Lle'r ydych wedi byw ers eich genedigaeth?"
   "Ydy'ch rhieni a'ch neiniau a'ch teidiau wedi byw yn yr un lle gydol eu hoes?"
   "I b'le (a pham) yr ydych chwi a'ch disgynyddion wedi symud?"

2. Ewch ymlaen i drafod y sialensau a'r posibilrwydd o bobloedd o wahanol gefndiroedd yn byw yn yr un cymunedau. Beth sydd i'w ennill trwy gael grwpiau o bobl yn cyd-fyw acyn cyd-rannu? (Cofiwch sut yr ydych yn gwneud salad ffrwythau!) Beth sydd i weld yn creu problemau yn eich pentref/tref/dinas/eglwys? Sut y gellir goresgyn y problemau hyn yn lleol?

## Enghreifftiau o weithgaredd cymunedol

Trefnwch weithgaredd eciwmenaidd a fydd yn cynnwys yr eglwysi lleol eraill lle rhennir y bara a'r pysgod yn adlais o fwydo'r 5000. Defnyddiwch hyn i nodi eich ymroddiad i ffordd Gristnogol o fyw sy'n bwydo'r gymuned *gyfan.* (Gallai hyn fod yn fath ar "gymundeb" neu yn barti mawr!) Trefnwch ŵyl amlddiwyllianol ar gyfer eich hardaloedd lleol, gan gynnwys cerddoriaeth, gwisgoedd ffansi, storïau, dawnsio a bwyd o wahanol rannau o'r byd, yn arbennig yn adlewyrchu'r bobl sy'n byw yn y gymdogaeth.

## Awgrymiadau ynglŷn â gweithgareddau codi arian

Trefnwch gasgliad ar gyfer cyfiawnder hiliol wrth i bobl ymadael â'r gwasanaeth. Trefnwch ddarlleniad ddi-ddiwedd noddedig o Efengyl Mathew, yr efengyl "sy'n cynnwys pawb". Rhowch y casgliad rheolaidd a geir ar Sul Medi 14eg i Gronfa Cyfiawnder Hiliol. Cynhaliwch fore coffi a chacennau i'r gynulleidfa ar ddiwedd addoli ar y Sul – a rhoi'r elw tuag at gyfiawnder hiliol. Cynhaliwch Sioe Ffasiynau Rhyngwladol fel gweithgaredd gymdeithasol eglwysig. Gwerthwch docynnau i godi arian tuag at gyfiawnder hiliol.

Y mae'r arian a roddir i Gronfa Cyfiawnder Hiliol Yr Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon yn cael ei ddefnyddio i gefnogi gweithgaredd gwerin gwlad mewn perthynas â chyfiawnder hiliol trwy Brydain ac Iwerddon. Y mae gan yr Eglwys Fethodist a'r Eglwysi Pabyddol ddulliau cyson o roi arian tuag at gyfiawnder hiliol trwy eu henwadau.

**Ar y tudalennau hyn dim ond bwydlen seml a welir:**

**er mwyn cael gwledd fwy ewch i** http://www.ctbi.org.uk/93